

# Adran 2

# Cadw plant a phobl ifanc yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud

## Dechreuadau cynnar

O'r cychwyn cyntaf – hyd yn oed cyn bod tîm o staff yn eu lle – roedd Comisiynydd Plant Cymru yn benderfynol o sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ran allweddol i'w chwarae wrth bennu ei agenda a dylanwadu ar ei raglen waith. Cyn bod swyddfa ganddo, hyd yn oed, roedd wedi penderfynu o'r hyn a glywsai wrth deithio o amgylch ysgolion, grwpiau ieuenctid a phrosiectau ar draws y wlad bod angen gwneud rhywbeth am doiledau ysgol. Ar ôl edrych ar y cefndir polisi a chasglu barn plant a phobl ifanc ledled Cymru ar y toiledau yn eu hysgol a'r hyn y dylid ei wneud amdanynt, cyhoeddodd adroddiad: ***Codi'r clawr***. Yn ddiweddarach buom hefyd yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn astudiaeth ar ddiogelwch bysus ysgol, gan adael iddynt ddylanwadu ar yr argymhellion a rhoi amlygrwydd i'w hargymhellion hwythau, yn yr adroddiad ***Ond mod i'n cyrraedd yn sâff***.

Er bod ein hymrwymiad yn glir ac yn amlwg o'n hadroddiadau, roeddem am wneud yn well. Felly yn 2004-05 fe wnaethom ni ddechrau gweithredu'n cynlluniau i sicrhau bod y pethau sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yn wir wrth wraidd ein gwaith. Gyda'r holl wahanol fathau o faterion oedd yn dod at ein sylw trwy agweddau gwahanol ar y gwaith, roedd angen i ni sefydlu trefn deg a democrataidd i adael iddynt leisio barn ar ein blaenoriaethau gweithredu, yn hytrach na gwneud yr holl benderfyniadau hynny ein hunain. Roedd angen hefyd i ni

sicrhau bod gan bobl ifanc gyfle i fod yn rhan o'n gwaith beunyddiol a ffordd o sicrhau bod yr hyn y maent wedi'i ddweud wrthym yn cael ei adlewyrchu'n gywir yng ngweithgaredd dylanwadu a datblygiadau polisi'r sefydliad. Roedd ein profiad blaenorol yn dangos nad oedd un ateb i bopeth felly - yn ogystal â'r gwaith roeddem yn ei wneud yn barod - fe wnaethom ni ddatblygu dwy ffordd newydd o gynnwys plant a phobl ifanc fel eu bod yn gallu cyfranogi mewn gwahanol agweddau ar ein gwaith.

## Cynnwys plant a phobl ifanc yn ein gwaith beunyddiol

Mae pobl ifanc bob amser wedi cyfrannu'n weithgar i'n gwaith, er enghraifft, yn ystod ymarferion recriwtio, gan wneud sylwadau neu bleidleisio ar gyhoeddiadau neu ddyluniad y wefan, neu drwy gyfrannu at ymgynghori neu brosiectau penodol. Rydym hefyd yn ymateb i wahoddiadau gan ysgolion, prosiectau a fforymau ieuenctid a grwpiau eraill o blant a phobl ifanc ac yn cynnal rhaglen ragweithiol o ymweliadau, gweithdai a mynychu digwyddiadau. Ynghyd â'n grŵp e-bost, Atebnôl, mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi llawer o wybodaeth i ni yn ogystal â'n helpu i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y Comisiynydd Plant a hawliau plant yn gyffredinol.

Yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf gwnaed ymrwymiad i glustnodi adnoddau ar gyfer sefydlu rhaglenni a strwythurau ar gyfer cynrychiolwyr a dulliau er mwyn cynyddu ymwneud â'r sefydliad a phennu blaenoriaethau'r rhaglen waith. Daeth creu fframwaith ar gyfer mwy o gyfranogiad yn ein rheolaeth gorfforaethol a'n gwaith beunyddiol i'r amlwg fel rhywbeth oedd yr un mor bwysig â sefydlu mecanwaith i ddylanwadu ar yr hyn yr ydym yn ei ddewis fel ffocws o flwyddyn i flwyddyn.

" Dydy athrawon ddim yn ymwybodol o broblemau plant maeth ac maen nhw'n llai gefnogol. "



## Grwpiau ymgynghorol

Cynhyrchwyd fframwaith drafft ar gyfer cyfranogiad a chyfranogaeth plant a phobl ifanc, gan ystyried yr agweddau eraill ar ein gwaith a'r angen am sicrhau bod rhaid i beth bynnag a gâi ei sefydlu fod mor gynhwysol a chynrychioliadol â phosib. Yn dilyn ymgynghoriad gwerthfawr iawn gyda phobl ifanc mae datblygiadau pellach yn awr ar waith.

Mae dau grŵp ymgynghorol – a fydd yn cwrdd gydol y flwyddyn – yn cael eu sefydlu ar gyfer y ddwy swyddfa yn Abertawe a Bae Colwyn. Cafodd yr aelodau eu recriwtio drwy fforymau ieuenctid presennol o bob awdurdod lleol i sicrhau bod pobl ifanc o bob rhan o Gymru'n medru cymryd rhan. Sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'n gwaith ac yn gallu gweithio fel tîm yw'r cam nesaf. Bydd gan bob grŵp ryw 15 o aelodau 11-16 oed a rôl benodol yn y sefydliad, gan edrych ar ein ffordd o gyflawni'n cyfrifoldebau a chyflwyno gwasanaethau. Bydd y bobl ifanc yn helpu gyda chynnal y strwythurau ychwanegol sydd bellach yn eu lle i benderfynu ar gynnwys a blaenoriaethau'n rhaglen waith. Byddant hefyd mewn sefyllfa dda i helpu i ysgrifennu a chynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd ac i'n helpu i gynllunio a chyflwyno gweithdai a digwyddiadau. Mae llawer o bosibiliadau – ond aelodau'r grwpiau ymgynghorol fydd yn penderfynu pa rolau maent am eu datblygu.

# Estyn llaw i blant a phobl ifanc

Mae Peter Clarke yn sicrhau, drwy ymweld yn rheolaidd ag ysgolion a grwpiau o bobl ifanc, siarad mewn cynadleddau a mynychu digwyddiadau, ei fod yn cael y newyddion diweddaraf o ran y materion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc a beth sy'n effeithio ar eu bywydau. Drwy'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth a chysylltiadau â sefydliadau a chyrff allanol mae hefyd yn casglu gwybodaeth am faterion sy'n destun pryder arbennig.

Ond mae sicrhau ei fod yn casglu gwybodaeth o'r fath gan HOLL blant a phobl ifanc Cymru yn dasg anodd, ac, er bod y gwaith o gynnwys plant a phobl ifanc a chynnal deialog gyda nhw wedi bod ar waith ers cryn amser, lluniwyd y rhaglenni o ymweliadau a gweithdai i sicrhau ein bod yn mynd ati'n systematig i gyrraedd pawb.

Cychwynnwyd ar raglen drefnus, wedi'i thargedu, o waith gyda phlant a phobl ifanc mewn grwpiau diamddiffyn ac 'anodd eu cyrraedd' yn gynnar yn 2004 ac aeth yn ei blaen yn ystod 2005. O ystyried yr ardal ddaearyddol eang a'r amrywiaeth helaeth o grwpiau dan sylw mae hyn yn golygu gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill ac yn ymrwymiad tymor hir. Er mwyn cydnabod gwerth y math hwn o waith rydym yn gobeithio sicrhau arian i gyflogi mwy o staff Cyfathrebu a Chyfranogiad yn y blynyddoedd nesaf i gyflawni'r dasg sylweddol a phwysig hon yn fwy effeithiol ac i roi'r gair ar led.

Mae'n hanfodol bod tîm y Comisiynydd Plant yn hawdd ei gyrraedd ac yn croesawu holl blant Cymru, gan ddathlu amrywiaeth a chofleidio arfer gwrth-ormesol. Rydym yn ymroddedig i weithio i'r diben hwn. Yn aml bydd hyn yn golygu gweithio gyda'r rheiny sydd â phrofiad o ddulliau cyfathrebu penodol neu waith uniongyrchol gyda grŵp penodol o blant a phobl ifanc. Mae tua hanner y tîm staff yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae nifer o aelodau staff eraill eisoes yn gwybod peth o'r iaith neu wedi mynd ati i'w dysgu. Rydym yn ffodus bod pob maes o'n gwaith yn cynnwys o leiaf un aelod o staff sy'n medru darparu gwasanaeth a chyfathrebu yn y Gymraeg.

# Rhoi llais i blant a phobl ifanc yn ein gwaith

Roeddem yn teimlo ei bod hi'n ymarferol cydnabod – yn enwedig wrth i amser fynd heibio – bod cynllun gwaith tîm y Comisiynydd Plant ymhell o fod yn ddalen wag. Mae'r holl wahanol grwpiau staff yn ymwneud â gwaith craidd megis darparu cyngor a chymorth, rhedeg Atebnôl, ymweld ag ysgolion a grwpiau ieuenctid neu ymateb i ddogfennau ymgynghorol y Cynulliad. Rydym hefyd yn gyfrifol am edrych ar gynnydd materion ac argymhellion adroddiadau blaenorol ac ymateb yn gyflym pan fydd rhywbeth sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc yn cael llawer o sylw yn y cyfryngau neu os bydd argyfwng.

Er bod angen i ni fod yn realistig, mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn medru mynegi barn yn uniongyrchol wrth helpu pennu'n blaenoriaethau a nodi meysydd gweithredu allweddol. Ail elfen newydd ein strategaeth gyfranogiad a chyfranogaeth, felly, yw sicrhau eu bod yn cael lleisio barn ar yr hyn y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol.

"Roedd 3 person mewn cadeiriau olwyn yn yr ysgol ond doedd yna ddim rampiau. Felly, wnaethon ni setio fyny pwyllgor i wneud rhywbeth. Ond wnaethon ni ddim cwyno oherwydd roedden ni'n gadael yr ysgol."

# Dewis beth sydd nesaf

## O ble mae'r materion yn dod?

Maent yn dod o bob agwedd ar ein gwaith, gyda ffocws arbennig ar yr hyn mae plant a phobl ifanc wedi'i ddweud wrthym. Nid dim ond trwy ymweliadau a gweithdai, neu Atebnôl a llythyron at y Comisiynydd mae hyn yn digwydd. Mae'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth hefyd yn ffynhonnell wybodaeth bwysig. Yn ogystal â helpu i gyflawni gwell canlyniadau, mwy o amddiffyniad neu wneud iawn i'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw, mae achosion unigol yn arwyddion gwerthfawr o ran y materion, y polisïau neu'r arferion sy'n achosi llawer o drafferth. Mae dadansoddi beth aeth o'i le ar gyfer un person ifanc yn rhoi cipolwg sy'n bwydo i'n cyfraniad at drafodaeth fwy cyffredinol, ymateb ymgynghori neu ymgyrch benodol. Gall fod sefydliadau plant, cymdeithasau proffesiynol neu gyrff eraill hefyd wedi dod â materion sy'n destun pryder at ein sylw, ac mae'r rhain i gyd yn cael eu hystyried wrth i ni benderfynu pa themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg.

**Mannau chwarae a hamdden**

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym nad oes digon o fannau i gwrdd neu chwarae, na digon o bethau i'w gwneud yn eu hamser sbâr.

Unwaith roedd diwedd y flwyddyn wedi mynd heibio, fe wnaethom ni edrych ar yr wybodaeth a gasglwyd drwy'r gwahanol sianeli cyfathrebu a gofynnwyd i reolwyr eraill ystyried a rhoi sylwadau ar yr hyn a welent fel prif bryderon plant a phobl ifanc drwy eu gwaith. Cynhaliwyd cyfarfodydd a thrwy drafodaeth roedd modd i ni nodi 5 thema eleni. Gan ystyried ein bod eisoes yn edrych ar fwlio, dyma nhw:

- Addysg ac ysgolion
- Chwarae a chyfleusterau hamdden
- Iechyd emosiynol
- Cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc y mae ei hangen arnynt
- Parch

Yn y blynyddoedd nesaf rydym yn gobeithio bydd y grwpiau ymgynghorol yn ein helpu i nodi'r materion sy'n codi o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym.

## Sut mae plant a phobl ifanc yn cael dewis?

Rydym yn ceisio rhoi cyfle i gynifer o blant a phobl ifanc â phosib fod yn rhan o'r penderfyniad, felly mae pawb rydym yn dod i gysylltiad â nhw yn cael cyfle i bleidleisio – aelodau Atebnôl (ein grŵp e-bost), unrhyw un sy'n ymweld



**Addysg ac ysgolion**

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym os oes angen help arnynt yn yr ysgol nad ydynt bob amser yn cael eu trin yn deg, yn enwedig os ydynt mewn trafferth neu'n cael anhawster ymdopi gyda gwaith neu fywyd ysgol yn gyffredinol.

â'n gwefan, llysgenhadon ysgol, y rheiny sy'n rhan o unrhyw weithdai neu ddigwyddiadau rydym yn mynd iddynt. Cafwyd cyfle cyntaf i ddylanwadu ar y Comisiynydd yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd, a bydd y pleidleisio'n parhau i mewn i hydref 2005. Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau arbennig er mwyn i blant a phobl ifanc archwilio'r themâu a phleidleisio ar yr hyn y maen nhw'n teimlo dylai'r Comisiynydd Plant edrych arno nesaf.

### Iechyd emosiynol

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym os ydynt yn cael trafferth ymdopi â'u meddyliau a'u teimladau y gallant ddechrau teimlo'n isel ac yn negyddol amdanynt eu hunain, ac nad oes unman lle gallan nhw fynd pan fydd angen help arnyn nhw.

Bwriedir i'r digwyddiadau fod mor gynhwysol a hygyrch (a difyr) â phosib, a chaiff lleoedd ynddynt eu dyrannu drwy ysgolion, sefydliadau a phrosiectau ledled Cymru. Dywedir wrth y sefydliadau hynny ein bod yn arbennig yn croesawu ceisiadau gan bobl ifanc anabl, pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol, teithwyr, pobl ifanc ddigartref, y rheiny sy'n derbyn gofal neu sydd wedi gadael gofal yn ddiweddar, troseddwyr ifanc a grwpiau eraill ar y cyrion. Ond does dim angen i ni wybod am eu cefndir oni bai bod ganddyn nhw anghenion y mae'n rhaid i ni ymateb iddyn nhw er mwyn iddyn nhw allu cymryd rhan. Dydyn nhw ddim yno i siarad am eu hamgylchiadau eu hunain nac i gynrychioli buddiannau grŵp penodol, ond mae'n bwysig bod y rheiny sy'n cymryd rhan yn adlewyrchu amrywiaeth cefndir a phrofiadau bywyd plant a phobl ifanc Cymru.

Yn 2005-06 bydd dau o'r digwyddiadau hyn, un ar gyfer rhai dros 11 oed yn Stadiwm y Mileniwm, ac un ar gyfer rhai 11 oed a iau yng Nghastell Bodelwyddan yng Ngogledd Cymru. Byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso'r rhain, ond rydym yn gobeithio cynyddu nifer y cyfleoedd hyn i bobl ifanc leisio barn yn y dyfodol, gan ymweld â gwahanol rannau o Gymru o flwyddyn i flwyddyn.

## A beth sy'n digwydd wedyn?

Cyhoeddir canlyniadau'r broses gyfan ym mis Ionawr 2006, mewn da bryd ar gyfer ein blwyddyn ariannol nesaf. Lluniwyd y cyfan i gyd-fynd â'n cylch cynllunio, felly bydd y ddau fater ar ben y rhestr yn dod yn 'brosiectau'r Comisiynydd' a bydd adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer gwaith a fydd yn cychwyn yn y flwyddyn ariannol ddilynol, a fydd yn dechrau ym mis Ebrill. Gallai Prosiect y Comisiynydd fod yn adolygiad, ymchwil pellach, neu hyd yn oed yn ymgyrch proffil uchel yn y cyfryngau. Bydd yr wybodaeth o'r digwyddiadau i blant a phobl ifanc yn dylanwadu ar yr union weithredu rydym yn ei ddewis ar gyfer y ddau fater blaenoriaeth, ac mae ganddi'r potensial i ddylanwadu ar ein hagwedd at themâu eraill a nodwyd hefyd.

### Gwasanaethau cefnogi ar gyfer y rheiny y mae eu hangen arnyn nhw

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym ni mai ychydig iawn o help sydd ar gael, yn enwedig os nad ydyn nhw'n byw gyda'u rhieni neu os ydyn nhw'n cael problemau yn yr ysgol.

### Parch

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym ni nad ydyn nhw'n teimlo bod oedolion bob amser yn eu parchu. Weithiau maen nhw'n teimlo nad ydyn nhw'n cael gwrandawiad na'u cymryd o ddifri, neu bod pobl bob amser yn meddwl y gwaethaf amdanyn nhw. Gall hyn wneud pethau'n anodd iawn.

## Hybu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Yn ôl y ddeddfwriaeth, rhaid i'r Comisiynydd Plant ystyried Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ym mhopeth mae'n ei wneud. Byddai gweithdai a chyflwyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc neu'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw yn anghyflawn pe na bai rôl y Comisiynydd yn cael ei hesbonio yng nghyd-destun hawliau dynol plant a phobl ifanc.

Rydym yn hybu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn mewn sawl modd. Rydym yn annog ymwybyddiaeth o'r egwyddorion sy'n sail i'r cytundeb ymhlith y rheiny sy'n darparu gwasanaethau i blant a'r rheiny sy'n gyfrifol am feysydd polisi sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r hawl i amddiffyniad, darpariaeth a chyfranogiad yn ganolog i'n hagwedd at gyngor a chymorth, ac wrth gwrs mae gweithgareddau neu waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc bron yn ddieithriad yn troi o amgylch Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn a hawliau.

# Llysgenhadon: y cynllun peilot

Mae'r ymgyrch llysgenhadon ysgol yn un enghraifft o sut mae'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth a gwella sianeli cyfathrebu gyda thîm y Comisiynydd yn cael ei gyplysu â hybu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Cynhaliwyd cynllun peilot ar gyfer yr ymgyrch llysgenhadon ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2004-05 ac ar hyn o bryd mae'n cael ei werthuso gyda'r bwriad o edrych eto ar y cynllun cyn ei estyn ar draws Cymru. Bu chwe ysgol gynradd o wahanol feintiau, rhai trefol a gwledig, a oedd yn cynnwys Ysgol Gymraeg ac ysgol arbennig, yn rhan o'r peilot.

"Es i'n gŵs-bymps i gyd pan ges i fy newis i fod yn llysgennad."

Roedd rôl y 2 Lysgennad a etholwyd ym mhob ysgol yn fwy na gweithredu fel man cyswllt ar gyfer y swyddfa a dweud wrth gyd-ddisgyblion am y Comisiynydd. Roeddent hefyd yn arwain prosiectau yn edrych ar faterion allweddol yn eu hysgolion – er enghraifft, edrych ar fwlio, cyfleusterau maes chwarae neu ginio ysgol – ac yn hybu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yn yr ysgol. Roeddent yn cadw dyddlyfrau ac yn defnyddio camerâu a thâp i gofnodi beth oedd yn digwydd. Darparwyd cit offer i gefnogi'r Llysgenhadon a'r athrawon cyswllt ym mhob ysgol ac roedd cefnogaeth ymarferol ar gael oddi wrth y Swyddogion Cyfathrebu. Fe wnaethom ni hefyd gynnal 2 Gyfarfod Llysgenhadon Cymru Gyfan yn y Canolbarth. Cafodd y peilot ei werthuso'n llawn gan y plant oedd yn rhan ohono, yr athrawon cyswllt a'r Swyddogion Cyfathrebu oedd yn arwain y cynllun, ac mae adroddiad bellach yn cael ei baratoi.

"O'r blaen roedd pobl yn meddwl bod dim hawl ganddyn nhw i ddweud beth fyddai'n digwydd, ond nawr maen nhw, felly maen nhw'n teimlo'n well amdanyn nhw eu hunain. Maen nhw'n gallu dweud eu dweud."

**Pa nodweddion sydd eu hangen ar Y LLYSGENNAD?**

Y gallu i wrando ar beth y mae pobl yn yr ysgol yn ei feddwl
Llwyddo i wneud ffrindiau newydd gyda phobl o ysgolion eraill
Y gallu i fod yn hapus a gwneud rhywbeth gwahanol yn yr Ysgol
Siarad drosoch eich hun
Gofyn os nad ydych chi'n siŵr ynglŷn â rhywbeth a chael help os oes angen
MEdru siarad dros eraill yn eich ysgol chi
YN gallu gweithio gyda phobl eraill
GwNeud pethau er mwyn i chi allu ceisio newid pethau i bobl ifanc
Abl i drefnu pethau, e.e. rhoi posteri'r Comisiynydd i fyny
Dibynadwy. Bydd yn dod i unrhyw gyfarfodydd ac yn ateb negeseuon!

“Mae ffordd yr ysgol wedi newid, a’r cinio.”

## Codi llais ar ran plant a phobl ifanc

Mae trosglwyddo’r neges yn glir yn hollbwysig os yw pencampwr plant i fod yn effeithiol. Mae angen i blant a phobl ifanc gael adborth ar yr hyn sy’n cael ei wneud â’r wybodaeth maen nhw’n ei rhoi i ni ac mae angen i ni sicrhau bod llunwyr polisi a’r rheiny sy’n gallu gwneud gwahaniaeth yn gwybod am farn ac argymhellion y Comisiynydd. Rydym bob amser yn ceisio adlewyrchu’r hyn mae plant a phobl ifanc wedi’i ddweud wrthym, nid dim ond yr hyn sydd orau iddyn nhw yn ein barn ni.

Drwy roi cyfweliadau i bapurau newydd cenedlaethol, lleol a rhai’r DU, cylchgronau a chyfnodolion, a rhaglenni teledu a radio, rydym yn ceisio cyrraedd cynifer o bobl â phosib. Mae digonedd o ymholiadau o’r cyfryngau, ac er ein bod yn cynhyrchu datganiadau i’r wasg, mae’r rhan fwyaf o gyfleoedd yn y cyfryngau’n codi o ddigwyddiadau allanol, felly mae’n rhaid i ni fod yn barod i ymateb. Mae dyfodiad Comisiynwyr Plant yng ngwledydd eraill y DU yn golygu bod gennym lawer o gyfleoedd newydd. Byddwn yn recriwtio i swyddi i’n helpu i wneud yn fawr o’r rhain ac i wella’n dull o drosglwyddo’r neges a rheoli’n perthynas gyda’r cyfryngau.

## Gweithio gydag eraill

Gan fod ein gwaith yn cynnwys amrywiaeth mor eang o faterion rydym yn ymwybodol iawn na ddylem ddyblygu gwaith asiantaethau eraill. Er mwyn bod yn glir ynghylch sut rydym yn gweithio gyda chyrff eraill rydym yn llunio Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda phob sefydliad unigol. Mae’r dogfennau hyn yn cael eu llofnodi gan y



ddau barti ac yn glir iawn ynghylch ein cyfrifoldebau a’r hyn y gallwn ei ddisgwyl gan ein gilydd. Mae Memoranda o Ddealltwriaeth wedi neu yn cael eu cwblhau gydag Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru a CAFCASS Cymru. Bydd cytundebau tebyg gydag asiantaethau a sefydliadau eraill yn cael eu llunio yn y man. Byddant yn helpu tîm y Comisiynydd i gydweithio ag asiantaethau y mae eu gwaith yn cael effaith ar hawliau a lles plant a phobl ifanc.

## Dylanwadu a rhwydweithio

Yn aml nid yw hawliau plant yn cael eu parchu oherwydd bod system neu weithdrefn wedi cael ei sefydlu i wasanaethu sefydliad yn hytrach na phlentyn neu berson ifanc. Er bod peth o’n gwaith dylanwadu’n digwydd wrth i ni hybu argymhellion darn penodol o waith, mae peth ohono hefyd yn ymwneud â diogelu plant neu’n edrych yn benodol ar gyfranogiad. Lluniwyd perthynas gyda Byrddau Iechyd Lleol ledled Cymru, darparwyr eiriolaeth, mudiadau plant a chymdeithasau proffesiynol, yn ogystal â grwpiau diddordeb arbennig, isadrannau’r Cynulliad a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Cynulliad, gan seilio'n hymatebion polisi ar wybodaeth a gasglwyd drwy ein gwaith cyfranogiad, cyngor a chymorth, a chyfathrebu. Mae dylanwadu ar y llywodraeth a llunwyr polisi yn galw am ystod eang o weithgareddau. Gan ein bod yn ceisio cyflawni newid diwylliannol, o fewn sefydliadau neu'r gymuned ehangach, mae'n rhaid ymdrin â hyn yn llydan. Mae aelodau o dîm y Comisiynydd yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau a gweithgorau – yn aml fel arsylwyr i gynnal eu hannibyniaeth – gan sicrhau ein bod yn medru dylanwadu ar ddatblygiadau a chyflawni gwelliant yn gynnar yn oes ymgyrch polisi neu arfer gwaith. Mae bod â statws arsylwr yn golygu ein bod yn medru cadw llygad ar gynnydd a datblygiadau, ond hefyd gwneud awgrymiadau, er enghraifft ynghylch sut gallai'r gweithgorau helpu plant a phobl ifanc i fod yn rhan o ddatblygu, monitro a gwerthuso polisi. Rydym hefyd yn cyfrannu at nifer o rwydweithiau a grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â'n gwaith.

**Roedd y grwpiau a'r rhwydweithiau y buom yn cymryd rhan ynddynt neu lle'r oedd gennym statws arsylwyr yn cynnwys y canlynol:**

- Grŵp Tasg a Gorffen Eiriolaeth LICC, yn ystyried gwasanaethau eiriolaeth plant a sefydlu Uned Eiriolaeth Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Grŵp Byw'n Iach yr Holl Bleidiau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Grŵp Ymgynghori a Gweithredu Cwynion a Chynrychiolaethau (CRAIG)
- Adolygiad Amddiffyn Plant mewn Perygl, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Trais yn y Cartref: Grŵp tasg a gorffen cyswllt plant yn ystyried agwedd Gwasanaethau Ymgynghori a Chefnogi'r Llysoedd Plant a Theuluoedd (CAFCASS) at faterion plant yng nghyswllt trais yn y cartref
- Y grŵp yn adolygu'r broses a ddilynir pan fydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru yn cyd-adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru
- Gweithgor gwrthweithio Ecsbloetio Rhywiol Plant
- Fforwm Rhyngasiantaeth Llys Teuluol Abertawe
- Cymdeithas Deddf Gyhoeddus Cymru a Chyfreithwyr Hawliau Dynol
- Cyngor Cyfiawnder Teuluol
- Datblygu'r Offeryn Hunanasesu ac Archwilio ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth (NSF)
- Gweithgor Cynllun Gweithredu Magu Plant
- Fforwm Polisi Amddiffyn Plant
- Cymdeithas Cyfraith Deuluol Cymru
- Grŵp Polisi Plant NGOs Cymru
- Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru
- 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable!
- Grŵp Monitro Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Rhwydwaith Cyfreithiol Plant (y DU)
- Tasglu Tlodi Plant LICC
- Grwpiau Cyfnewid Arfer Hawliau Plant Plant yng Nghymru yn Ne a Gogledd Cymru
- Tadolaeth Cymru
- Gweithgor Galluogi Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
- Grŵp Llywio ac is-grwpiau Consortiwm/Uned Cyfranogiad Cymru
- Sefydliadau Pobl Ifanc Cymru Gyfan (AWYPO)

# Gweld y darlun mwy

Mae cyswllt rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw neu'n gweithredu ar eu rhan yn hanfodol. Er y gallwn ganolbwyntio o bosib ar rai materion penodol, mae angen hefyd i ni gadw bys ar bwls rhai o'r materion pwysig eraill. Fel swyddfa mae'n bwysig ein bod yn cyflawni'n rôl fel eiriolwyr systemig, gan geisio dylanwadu ar ddatblygiad a gweithrediad polisi a gyrru'r agenda yn ei blaen. Mae materion ehangach yn dod at ein sylw mewn tair prif ffordd:

- cyswllt uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, er enghraifft drwy waith cyfranogiad neu gyngor a chymorth
- gwybodaeth a rennir gyda ni gan weithwyr proffesiynol a sefydliadau
- agweddau allweddol ar adolygiadau

Mae hyn yn golygu ein bod yn medru gwneud sylwadau gwybodus ar amrywiaeth o faterion – yn wir, unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant a phobl ifanc.

# Ewrop a'r tu hwnt

## Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsmyn Plant

Ym mis Hydref 2004, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsmyn Plant (ENOC) yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Roedd rhyw 50 o gynadleddwyr yn bresennol, yn cynrychioli swyddfeydd comisiynwyr plant o bob rhan o'r gymuned Ewropeaidd, a chafwyd trafodaethau dwys dros gyfnod o dridiau. Ar ddiwedd y cyfarfod, daeth Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru, yn Llywydd ENOC.

Cyflwynodd plant a phobl ifanc o FeFi (grŵp drama plant sy'n derbyn gofal) a Ddraig Ffynci beth o'u gwaith a gwybodaeth



am eu profiadau i'r cynadleddwyr. Roedd baneri Hawliau Plant a chwilt Hawliau mawr – yn amlygu'r Erthyglau yng Nghytundeb y CU sy'n fwyaf perthnasol i'r plant a'r bobl ifanc a'u cynhyrchodd yn ystod ein rhaglen o weithgareddau a gweithdai yn haf 2004 – hefyd yn cael eu harddangos yn amlwg.

## Comisiynydd Plant Talaith Gorllewin Cape yn Ne Affrica

Wrth i nifer y gwledydd sydd am sefydlu swyddi tebyg gynyddu rydym wedi derbyn llawer o ymholiadau o bob rhan o'r byd yn gofyn am ein cyngor a hefyd ein meddyliau ynghylch y profiad o sefydlu'n swyddfa a'n tîm ein hunain. Roeddem yn falch o groesawu Derrick Schroeder, gwas sifil uwch gyda llywodraeth Talaith Penrhyn y Gorllewin yn Ne Affrica ar ymweliad 3 mis yng ngwanwyn 2005. Diben yr ymweliad oedd cynorthwyo a galluogi Derrick i baratoi arweiniad a rheoliadau drafft ar gyfer sefydlu Comisiynydd Plant ar gyfer Penrhyn y Gorllewin; rhoi iddo brofiad uniongyrchol o waith beunyddiol Comisiynydd Plant; a helpu i sefydlu cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a'r llywodraeth ym Mhenrhyn y Gorllewin.

"Hoffwn i siarad i rhywun am sut rydw i'n teimlo."




# Adran 3

## Defnyddio’r offer sydd gennym: pwerau statudol y Comisiynydd

Gellir cymharu’r pwerau a nodir yn y cyfreithiau a sefydlodd Gomisiynydd Plant Cymru â’r offer y mae eu hangen i wneud y gwaith. Nid yw’r holl offer sydd ar gael yn cael eu defnyddio bob dydd, ond mae gweithgareddau a rhaglen waith y flwyddyn wedi golygu bod y pwerau cyfreithiol wedi’u defnyddio’n effeithiol. Mae’r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi rhai pethau y mae’n rhaid i Peter Clarke eu gwneud i fod yn bencampwr gwybodus i blant a phobl ifanc, gan yrru newid yn ei flaen i sicrhau dyfodol mwy disglair a diogel i blant Cymru.

# Adolygu polisïau a gweithdrefnau

**Mae cynnal adolygiad yn rhoi cyfle i ni edrych yn fanylach ar sut mae systemau a gweithdrefnau'n hybu ac yn diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc.**

## Adolygiad Awdurdodau Addysg Lleol

Yn ystod y flwyddyn buom yn cwblhau a choladu'r data o'r adolygiad o'r trefniadau a wnaed gan AALlau yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau cwynion ac eiriolaeth plant, a pholisïau datgelu camarfer. Ar sail y fformat a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad o wasanaethau cymdeithasol yn yr adroddiad ***Datgan Pryderon***, roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i ddeall y trefniadau a wnaed, nid mewn awdurdodau addysg lleol yn unig, ond mewn awdurdodau lleol yn gyffredinol, gan fod llawer o'r polisïau'n cael eu defnyddio ar draws holl adrannau'r awdurdod heblaw'r gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd angen i ni ddarganfod sut roedd AALlau yn darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc am eu hawl i gwyno am y gwasanaeth a ddarparwyd, a hefyd darganfod a oedd polisïau a gweithdrefnau presennol AALlau yn hygyrch i blant a phobl ifanc, ac yn troi o amgylch y plentyn. Mae diwygio arweiniad presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bolisi a gweithdrefn gwynion gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn gyfle i ddiwygio polisïau a gweithdrefnau cwynion cyfredol AALlau. Hyderwn y bydd canfyddiadau'n hadolygiad yn bwydo i'r broses honno.

Roedd tair elfen i'r broses adolygu: casglu gwybodaeth drwy holiaduron manwl i bob awdurdod addysg lleol, gweithdai gyda phlant a phobl ifanc, a chyfweliadau gyda staff AALl uwch i egluro materion a llenwi unrhyw fylchau yn yr wybodaeth. Gweler isod i gael mwy o fanylion am ein canfyddiadau.



## Taclo bwlio yng Nghymru: adolygiad thematig

Erbyn diwedd Mawrth 2005 roedd y gwaith cynllunio a pharatoi wedi'i gwblhau yn barod ar gyfer yr adolygiad thematig cynhwysfawr ar fater bwlio a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2003-04. Mae'r adolygiad hwn i'w gynnal dros gyfnod o 18 mis, a thîm aml-swyddogaeth fydd yn gyfrifol amdano. Wedi'i nodi fel un o 'brosiectau'r Comisiynydd' ar hyn o bryd yn y cynllun corfforaethol, bydd yr adolygiad yn cynnwys plant a phobl ifanc yn ei holl elfennau. Bydd yn ceisio nodi bylchau a rhwystrau i weithredu ymgyrchoedd a pholisïau gwrth-fwlio yn effeithiol. Er y bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion, bydd yr ymagweddiad yn gyfannol ac yn ystyried materion perthnasol sy'n troi o amgylch y gymuned, diwylliant, a hyd yn oed bywyd y teulu. Ar adeg ysgrifennu rydym yn ceisio penodi secondai i gydlynu'r darn pwysig a sylweddol hwn o waith.

# Cyhoeddi'n canfyddiadau a lledaenu arfer da

## Dydy plant ddim yn cwyno … rhieni sy'n gwneud

Cwbhawyd yr adroddiad ar ail adolygiad Comisiynydd Plant Cymru o'r systemau ar gyfer diogelu a hybu hawliau a lles plant tua diwedd y flwyddyn. Cymerwyd teitl yr adroddiad – ***Dydy plant ddim yn cwyno…*** - o sylw a wnaed gan un Cyfarwyddwr Addysg a ddywedodd yn ystod y broses adolygu mai rhieni fyddai'n cwyno – nid plant neu bobl ifanc.

Roedd yr angen am newid diwylliant o fewn awdurdodau addysg lleol yn glir er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ogystal â'u rhieni a'u gofalwyr yn cael eu gweld fel buddiolwyr y gwasanaethau a deiliaid hawliau. Go brin ei bod hi'n syndod bod awdurdodau addysg lleol yn derbyn cyn lleied o gwynion gan blant a phobl ifanc o ystyried mai anaml y mae'r systemau eu hunain yn hawdd nac yn hygyrch i blant eu defnyddio ac nad ydynt yn cael eu hybu.

Mae ***Dydy plant ddim yn cwyno…*** yn adrodd ar ganfyddiadau'r tîm adolygu, sef bod angen yn gyffredinol i awdurdodau addysg lleol wneud mwy o ymdrech i hysbysu plant a phobl ifanc am y gwasanaethau maent yn eu darparu a'u cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Roedd rhai o'r gweithdrefnau cwynion yn debygol o beri na fyddai oedolion yn gwneud cwyn, ac roedd agwedd ry negyddol – ychydig oedd yn gwerthfawrogi agwedd bositif defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i wella ansawdd gwasanaethau a helpu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

Testun pryder arbennig oedd y plant a'r bobl ifanc hynny mewn cyfleusterau arbenigol ymhell oddi wrth eu teuluoedd, gan mai ychydig o'r mesurau diogelu a fyddai yn eu lle petaent yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol sydd ar gael iddynt. Nododd llawer o'r swyddogion awdurdod addysg lleol eu bod yn ymwybodol o'r pryderon hyn a'r angen am ddarparu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc diamddiffyn yn ogystal ag agor a gwella'r systemau'n gyffredinol.

Roedd llawer o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad cynharach ***Datgan Pryderon***, a oedd yn canolbwyntio ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol, hefyd yn berthnasol. Mae argymhellion ***Dydy plant ddim yn cwyno…*** yn cynnwys:

- sefydlu siop dan yr unto i ddarparu man cyswllt ar gyfer plant a phobl ifanc sydd am drafod pryder ynghylch unrhyw wasanaethau perthnasol ym mhob awdurdod lleol
- adolygu'r polisïau datgelu camarfer i sicrhau bod yr agweddau amddiffyn plant yn glir a rhoi cyhoeddusrwydd i'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny ymhlith staff awdurdod lleol
- darparu gwasanaethau eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc, gyda chomisiynu eiriolaeth plant ym maes addysg yn flaenoriaeth.

"Cwyno yw'r cam cyntaf tuag at wneud pethau'n well drwy cael yr hyder neu'r 'guts' i siarad allan am rhywbeth sy'n anghywir neu sy'n eich poeni."

# Monitro cynnydd o ran argymhellion

Beirniadaeth gyson ar adroddiadau yw eu bod yn eistedd ar silff wedi iddynt gael eu cyhoeddi a derbyn peth cyhoeddusrwydd. Mae'r gallu i fynnu ymateb i unrhyw argymhellion a wneir, ac i'w monitro, yn sicrhau nad yw hyn yn digwydd i adroddiadau'r Comisiynydd Plant.

### *Adroddiad Clywch*

Wedi cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar Archwiliad Clywch ym mis Gorffennaf 2005, dechreuodd y gwaith o hysbysu'r holl bobl hynny yr oedd yr argymhellion yn berthnasol iddynt a gofyn am ymateb o fewn y terfynau o 3, 6 a 12 mis. Gan fod angen i gynifer o gyrff gwahanol, adrannau awdurdod lleol a hefyd Llywodraeth Cynulliad Cymru roi gwybod i ni sut roeddent yn bwriadu rhoi'r argymhellion ar waith – ac mae angen ystyried pa mor ymarferol effeithiol mae'r ymateb hwnnw'n debygol o fod – mae'r gwaith a gynhyrchwyd gan y broses hon wedi bod yn ddwys ac yn amrywiol.

Sefydlwyd tîm mewnol i ystyried yr ymatebion ac rydym yn gweithio gyda rheiny dan sylw, gan roi adborth ac anogaeth i sicrhau cyflawni holl fanteision gweithredu o ran mesurau diogelu gwell. Ceir meddyliau'r Comisiynydd ei hun ar y broses hon yn Adran 5 o'r adroddiad hwn.

Ers cyhoeddi ***Adroddiad Clywch*** rydym wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru: gan roi gwybodaeth iddynt am yr achosion unigol perthnasol, trafod yr arweiniad drafft sy'n ceisio gwella'r ymchwil a'r ystyriaeth a geir i honiadau o gam-drin, ac wedi bod yn hyfforddi llywodraethwyr ysgol gyda'n gilydd. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn a byddwn yn parhau i fonitro'u heffeithiolrwydd drwy'r achosion sy'n derbyn sylw'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth.

### *Datgan Pryderon a Dydy plant ddim yn cwyno …*

Dangosodd yr ymatebion i'r ymarferiad monitro a gynhaliwyd wedi cyhoeddi ***Datgan Pryderon*** fod rhai adrannau gwasanaethau cymdeithasol wedi colli peth o'r momentwm cychwynnol a gwelir adolygu a monitro gweithrediad AALlau o argymhellion ***Dydy plant ddim yn cwyno…*** fel cyfle i sicrhau gwerthfawrogiad o werth eu gweithredu'n llawn.

**Mae ein holl gyhoeddiadau ar gael o'n swyddfeydd, neu gellir eu lawrlwytho o'n gwefan www.childcomwales.org.uk**



"Os ydych chi'n cwyno mae angen i chi wybod at bwy i gwyno."

# Darparu cyngor a chymorth

Caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi mewn nifer o ffyrdd, ac roedd datblygu'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth ymhellach yn flaenoriaeth a nodwyd gan y Comisiynydd yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf. Bernir bod y pŵer statudol i ddarparu cyngor a chymorth ac i ymchwilio i achosion unigol yn offeryn gwerthfawr am y rhesymau canlynol:

1. Mae'n nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer adolygiadau polisi ac ymchwiliol, gan roi gwybodaeth i ni am brofiadau gwirioneddol plant a phobl ifanc a'r rheiny sy'n pryderu ynghylch eu hawliau a'u lles.
2. Gellir nodi bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gwahaniaethau rhwng rhethreg polisi'r llywodraeth a'i weithrediad mewn gwirionedd, ac mae hyn yn ein helpu i gynllunio ffocws gweithgaredd dylanwadol at y dyfodol.
3. Rhoddir enghreifftiau bywyd go iawn i'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau neu sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc o effaith polisi neu arfer ac mae gweithio gyda nhw yn brofiad dysgu gwerthfawr i bawb sy'n rhan o hynny.
4. Mae gwybodaeth ac ystadegau o'r gwaith cyngor a chymorth yn bwydo i'n cynllunio tymor hir a'r blaenoriaethau a osodwn ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn datblygodd y gwasanaeth yn sylweddol gyda sefydlu rolau cyngor a chymorth penodedig newydd. Mae hyn yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth o safon uchel, a datrys problemau'n llawer cynt yn aml nag oedd yn bosibl gyda system rota o staff ar draws y sefydliad. Datblygiad pellach oedd newid yn oriau agor y gwasanaeth oedolion. Mae'r gwasanaeth ar gael ar hyn o bryd bob bore yn ystod yr wythnos o 10.00am tan 12.00 ganol dydd; ond gall plentyn neu berson ifanc gael cyngor a chefnogaeth ar unrhyw adeg yn ystod oriau swyddfa.

**Achos enghreifftiol**

*Cafodd disgybl cynradd oedd ag anhwylder sbectrwm awtistig drafferth yn cael ei dderbyn yn ôl i'w ysgol gynradd ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd am nad oedd ei ddatganiad AAA yn nodi cefnogaeth un i un. Teimlai'r ysgol fod cefnogaeth un i un yn angenrheidiol, ond ni ellid cael hyd i arian ar ei chyfer. Yn dilyn ymyrraeth y tîm Cyngor a Chymorth sicrhaodd yr adran gwasanaethau cymdeithasol gefnogaeth arbenigol i helpu gyda rhaglen strwythuredig ac edrych ar ei anghenion addysgol.*

Ffocws y gwasanaeth yw datrysiadau cyflym ac effeithiol lle nad yw gwasanaethau'n gweithio dros blant. Cyflawnir hyn drwy gyfryngu, trafod, eiriol a chyfeirio. At ei gilydd, caiff problemau eu datrys yn fuan er boddhad i blant a'u teuluoedd o fewn terfynau amser sy'n dderbyniol iddynt.

**Achos enghreifftiol**

*Derbyniodd y tîm cyngor a chymorth alwad gan deulu person ifanc 16 oed sy'n anorecsig ac a oedd yn cael trafferth cael mynediad i ganolfan arbenigol yng Nghaerdydd neu Fryste oherwydd diffyg arian a gwelyau. Cysylltodd y gweithiwr Cyngor a Chymorth â'r amrywiol asiantaethau a derbyniwyd y ferch ifanc i'r ysbyty i gael triniaeth ychydig ddyddiau'n ddiweddarach.*

**Achos enghreifftiol**


*Gwnaeth dau blentyn honiadau o gam-drin rhywiol yn erbyn aelod o'u teulu. Ymchwiliwyd i'r honiadau a phenderfynodd Gwasanaeth Erlyn y Goron beidio â chychwyn erlyniad. Caeodd y Gwasanaethau Cymdeithasol yr achos oherwydd achos cyfreithiol preifat a chytunwyd ar gyswllt dan oruchwyliaeth gan y llys. Daethpwyd â'r plant i'n sylw am fod rhai aelodau o'r teulu'n teimlo nad oedd y trefniadau cyswllt yn amddiffyn y plant yn ddigonol. Wedi i ni ymyrryd, cytunodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i ailagor yr achos a chynnal asesiad risg i weld a oedd unrhyw beryglon parhaus.*

# Ffeithiau a ffigurau


Dyma un o'n meysydd gwaith sydd wedi tyfu gyflymaf, ac er bod y tyfiant cychwynnol bellach wedi sefydlogi, cynyddodd nifer yr achosion newydd 11½ % ers y flwyddyn 2003-04. Ar unrhyw adeg benodol bydd rhyw 100 achos ar agor ar gyfartaledd, gyda 279 o achosion newydd yn cael eu dwyn i'n sylw yn ystod y cyfnod Ebrill 2004 i Fawrth 2005.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyswllt cychwynnol yn dod drwy riant, gofalwr neu'r teulu estynedig, ond rydym yn siarad â'r plentyn neu'r person ifanc cyn gynted â phosib i ganfod eu meddyliau a'u teimladau am y sefyllfa. Mewn rhai achosion mae'n briodol bod yr oedolion – yn ofalwyr neu'n weithwyr proffesiynol – yn gweithredu fel eiriolwyr dros y plentyn neu'r person ifanc a nhw fydd ein prif gyswllt. Mae hyn yn arbennig o briodol yn achos plant ifanc iawn, neu'r rheiny ag anghenion cyfathrebu penodol. Caiff oedolion eu hysbysu bob amser ein bod yn gweithredu dros y plentyn neu'r person ifanc ac mai eu lles, eu dymuniadau a'u teimladau, yn hytrach na dymuniadau'r oedolion, fydd yn arwain ein camau gweithredu.


## *Rhyw'r plant y gweithredwyd ar eu rhan 2004-05*





## *Cyngor a chymorth: sut cysylltwyd â ni 2004-05*





## *Cyngor a chymorth: pwy wnaeth y cyswllt cychwynnol 2004-05*



## Oedrannau'r plant y gweithredwyd ar eu rhan 2004-05




## Cyngor a Chymorth: Materion 2004-05




**Achos enghreifftiol**

*Ysgrifennodd disgybl ysgol gynradd yn uniongyrchol at y Comisiynydd gan ddweud bod ei hathrawes yn ei bwlio ac yn esbonio sut roedd hyn yn ei phoeni. Gofynnodd i'r Comisiynydd stopio'r bwlio. Cyfarfu aelod o'r tîm Cyngor a Chymorth â'r ferch ifanc i gael mwy o wybodaeth ac wedyn cysylltu â'r ysgol i weld a ellid datrys y mater yn foddhaol. Er bod yr oedolion dan sylw wedi dilyn y weithdrefn ffurfiol, roedd yn amlwg ei bod wedi methu datrys y mater i'r plentyn. Mewn cyfarfod sensitif gyda'r athrawes dan sylw daeth yn eglur nad oedd hi wedi gwerthfawrogi effaith ei hymddygiad ar y disgybl, ac fe wnaeth hi ymddiheuro wrthi.*

# Pa fath o faterion mae pobl yn cysylltu â ni yn eu cylch?

Mae'r mathau o faterion a ddaeth i'n sylw drwy gyngor a chymorth wedi bod yn debyg o flwyddyn i flwyddyn gydag addysg – yn arbennig Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) – a materion gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig o amlwg. Lle cawsom nifer sylweddol o gysylltiadau, mae'r graff yn cynnwys penawdau ar wahân ar gyfer materion sydd hefyd yn dod o dan y pennawd gwasanaethau cymdeithasol neu addysg.

Bu'r nifer uchaf o achosion eleni ym maes amddiffyn plant. Mae'r achosion hyn yn dod atom pan fydd partïon â diddordeb yn teimlo bod plant yn dal mewn perygl er gwaethaf ymwneud y gwasanaethau cymdeithasol â'r achos. Rydym yn ymdrin â'r achosion hyn drwy wrando ar blant, pobl ifanc a'u cynrychiolwyr, gan gwrdd â'r asiantaethau perthnasol i geisio sicrhau bod yr asiantaeth yn ailystyried ac yn asesu'r risgiau rydym yn tynnu eu sylw atynt. Rydym yn monitro ymchwiliadau dilynol yn fanwl.

Caiff achosion amddiffyn plant hefyd eu codi'n uniongyrchol gyda chyrff eraill megis Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a CAFCASS Cymru.  Rydym yn gwbl ymwybodol bod rhai o'r plant a'r bobl ifanc sy'n dod atom wedi colli ffydd ac ymddiriedaeth yn yr asiantaethau statudol. I'w hannog i ddod i ddweud wrthym am eu lles a lles plant eraill, yn enwedig y rheiny sy'n derbyn gofal, mae gennym lefel uwch o gyfrinachedd na'r asiantaethau statudol, ac ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth ond gyda chaniatâd y plentyn neu os byddwn yn barnu bod y plentyn hwnnw neu blentyn arall mewn perygl.

Mae achosion gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud yn bennaf â sicrhau gwasanaethau i blant mewn angen. Mae'r rhain yn cynnwys plant sy'n ceisio lloches. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal yn gofyn i ni eu helpu i weld aelodau o'u teuluoedd yn unol â'u hawliau dynol, neu i'w helpu i newid neu aros yn eu cartref maeth cyfredol. Buom yn cynorthwyo plant i herio'r penderfyniad i gau eu cartref preswyl ac yn cefnogi pobl ifanc i aros y tu allan i'r sir, lle roeddent wedi cael eu lleoli, wedi gwneud ffrindiau ac wedi ymsefydlu yn y gymuned leol. Mae cael eich derbyn i ofal yn brofiad trawmatig i blentyn, ac mae ansawdd eu cartref maeth a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt yn bwysig ar gyfer eu lles a'u gallu i gyflawni eu potensial. Drwy achosion unigol rydym wedi dod yn ymwybodol o ddiffyg dewis ac argaeledd cartrefi maeth, o gartrefi anaddas, ac o blant yn cael eu symud o un cartref maeth i'r nesaf fel bod cysylltiadau teulu, diwylliant a chyfoedion o dan fygythiad. Mae hyn yn cael effaith annerbyniol ar blant a phobl ifanc sydd mewn sefyllfa hynod fregus. Mae sawl achos yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol yn methu â darparu'r gofal y cytunwyd arno yn y cynlluniau gofal. Rydym yn cydnabod y straen aruthrol ar staff gwasanaethau cymdeithasol o ran recriwtio a chadw staff, ond mae'n hanfodol bod y gwasanaeth a addewir i bob plentyn yn cael ei gyflwyno.

Mae'r achosion Anghenion Addysgol Arbennig yn llawn cwynion a phryderon am y broses ddatganiadau neu am wasanaethau na ddarperir i blant er eu bod wedi'u nodi yn eu datganiadau. Rydym yn helpu rhieni i gael mynediad i gefnogaeth ar hyd y broses ac yn ymyrryd mewn achosion unigol i hygyrchu gwasanaethau lle maent yn bodoli. Mae'n rhwystredig nad yw hyn bob amser yn bosib, yn enwedig yn achos iechyd meddwl, lleferydd, iaith a therapi galwedigaethol, neu ar gyfer plant ag anableddau corfforol neu ddysgu.

Mae addysg yn parhau'n destun pryder sylweddol gyda chyfeiriadau gan blant, rhieni, athrawon a llywodraethwyr. Nid yw hyn yn syndod gan fod mwyafrif plant Cymru'n treulio cyfran helaeth o'u diwrnod yn yr ysgol. Roedd y prif broblemau y clywsom amdanynt yn gysylltiedig â bwlio, gan gynnwys honiadau o gam-drin gan athrawon a phenaethiaid yn ogystal â disgyblion eraill. Fel arfer, unig ddymuniad y plentyn yw iddo ddod i ben, derbyn ymddiheuriad a chael sicrwydd ei fod yn ddiogel. Mae angen cyfryngu a thrafod yn



**Achos enghreifftiol**

*Roedd merch 11 oed yn cael ei hanfon i ysgol uwchradd wahanol i'w ffrindiau ac yn anhapus ac yn anfodlon iawn am hynny. Cyfarfu gweithiwr cyngor â hi i ganfod ei dymuniadau a'i theimladau. Anfonwyd llythyr cefnogi at y gwasanaethau disgyblion yn ystod y broses apêl a chynigiwyd lle iddi yn yr un ysgol uwchradd â'i ffrindiau.*

**Achos enghreifftiol**

*Cysylltodd rhiant â'r swyddfa yn pryderu ynghylch diffyg gweithgareddau, grwpiau a chanolfannau ieuenctid yn ei hardal leol. Roedd hefyd yn pryderu am y lleihad yn nifer y mannau chwarae i blant iau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Rhoddodd y tîm Cyngor a Chymorth wybodaeth gyswllt iddi ar gyfer gwasanaeth priodol yn ei hardal a throsglwyddo'r wybodaeth i Chwarae Cymru.*

uniongyrchol ac yn sensitif gyda Phennaeth yr ysgol, gan gadarnhau unwaith eto'r angen am wasanaethau cyfryngu lleol i blant a theuluoedd. Mae hyn aml wedi arwain at ddatrys y broblem, gyda'r plentyn yn dychwelyd i'r ysgol. Rydym hefyd wedi cynorthwyo plant i fynd i ysgolion o'u dewis neu ysgolion arbennig ac i gael mynediad i gludiant ysgol mewn achosion o wahardd. Rydym yn rheolaidd yn cynghori athrawon, penaethiaid a llywodraethwyr mewn sefyllfaoedd sensitif lle mae honiadau o gam-drin.

Mae'r achosion iechyd yn bennaf yn ymwneud â sicrhau'r gwasanaeth i'r plentyn, gan gynnwys CAHMS, ceisio galluogi rhyddhau plant o'r ysbyty a'u cefnogi yn eu cymunedau drwy helpu Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a gwasanaethau cymdeithasol i gydweithio i gael hyd i arian. Mae wedi'n synnu bod yr achosion hyn yn cael eu hystyried yn unigol, ar sail ad hoc. Rydym hefyd yn dal i bryderu am y diffyg gwelyau i blant ag anhwylderau bwyta yng Nghymru.

Mae'r achosion tai yn ymwneud yn gynyddol â phlant sydd mewn perygl o fod yn ddigartref am fod landlordiaid cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn bygwth eu troi allan. Yn yr achosion hyn rydym yn ceisio trafod gyda'r awdurdod tai a gwneud y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai plant fod mewn angen yn eu hardal os cânt eu troi allan o'u cartref.

Mae plant yn cysylltu â ni'n uniongyrchol am eu bod am gael eu cynrychioli ar wahân yn gyfreithiol mewn gwrandawiadau preswyl a chyswllt, am nad ydynt yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Ni allwn ymchwilio i unrhyw fater sy'n destun achos cyfreithiol, nac adrodd arno; serch hynny rydym yn cyfeirio plant at gyfreithwyr ar y Panel Plant. Rydym yn croesawu Barn ddiweddar Llys Ewrop sy'n estyn yr hawl i gynrychiolaeth annibynnol ar gyfer pobl ifanc rhugl yn eu harddegau. Buom yn darparu cymorth ariannol er mwyn i un plentyn gael cynrychiolaeth ar wahân mewn achos cyfraith gyhoeddus a gododd faterion cyffredinol ar gyfer plant yng Nghymru.

# Materion heb eu datganoli

Rydym yn dal i weithredu yn y meysydd hynny sydd heb eu datganoli i'r Cynulliad ac sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru. Mewn un achos eleni achoswyd trallod mawr i'r plant a symudwyd a'u ffrindiau a adawyd ar ôl gan gyrch toriad gwawr yr Heddlu er mwyn gorfodi'r plant i symud o'u cartref yng Nghaerdydd a dychwelyd i Angola. Derbyniodd y Comisiynydd ddwsinau o lythyron oddi wrth blant oedd yn pryderu am eu ffrindiau, wedi cynhyrfu, yn bryderus ac yn ddig nad oeddent hyd yn oed wedi cael cyfle i ffarwelio. Fe wnaethom ni godi'r arfer annynol hwn gyda'r Prif Weinidog, a orchmynnodd i'r gwasanaeth mewnfudo ymchwilio i'r mater. Fe wnaethom ni hefyd gysylltu â'r Heddlu ac rydym wedi cytuno i'w cynorthwyo i adeiladu pontydd gyda'r plant, gan geisio tawelu eu hofnau. Drwy Grŵp Comisiynwyr y DU byddwn yn parhau i herio'r arfer annynol a diangen hwn ac effaith enbyd polisïau mewnfudo'r DU ar blant.

Yn naturiol bydd gwasanaethau'r Heddlu yng Nghymru yn ymwneud â rhai achosion unigol weithiau, ac rydym wedi cydweithio, gan gyfnewid gwybodaeth ac eiriol dros blant. Mae hyn fel arfer yn gweithio'n dda, ond weithiau mae ein hanallu i gael gafael ar wybodaeth wedi achosi trafferthion. Rydym yn cydweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i ddatblygu model ataliaeth gyfannol aml-asiantaeth, a hynny gan gynnwys plant a phobl ifanc, troseddwyr ifanc a'r rheiny sydd mewn perygl o droseddu, mewn prosiectau gwella cymdogaethau a leolir yn y gymuned. Rydym yn disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau'r flwyddyn nesaf.





## Adolygiadau ymchwiliol

Ni all rhai o'r achosion cymhleth iawn sy'n cael effaith gyffredinol ar blant yng Nghymru yn ogystal ag ar y plentyn neu'r person ifanc penodol dan sylw gael eu datrys drwy drafodaeth, eiriolaeth na chyfryngu am amrywiaeth o resymau. Yn yr achosion hyn mae gennym y pŵer i ymgymryd ag adolygiad sydd yn ei hanfod yn ymchwiliad. Mae pob ymchwiliad yn galw am amrywiaeth o sgiliau ac arbenigedd gwahanol, yn unol â'r pwnc a'r materion sydd dan sylw. Er mwyn cyflawni'r ymchwiliadau hyn i'r safon uchaf o fewn ein cyllideb byddwn yn cyfarwyddo timau bychan o arbenigwyr yn y flwyddyn ariannol nesaf, a fydd yn gweithredu o dan gyfarwyddyd ac yn cael eu monitro gan yr Is-Gomisiynydd(Cyfreithiol ac Ymchwiliadau).

Rydym yn gorff rhagnodedig ar gyfer datgelwyr camarfer sy'n bobl broffesiynol ac yn tystio i arfer sy'n destun pryder yn y gweithle, ac sy'n effeithio ar les plant. Caiff datgelwyr camarfer eu hamddiffyn gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd wrth ddatgelu gwybodaeth i ni. Eleni bu i ni dderbyn cyfeiriadau gan ddatgelwyr camarfer a'u cynorthwyo drwy gyflwyno'r pryderon hynny i'r bobl berthnasol yn eu sefydliadau a'u cefnogi ar hyd y broses, gan fonitro'r canlyniadau.

parch
cynnwys
lleisiau
hawliau
gwrando
agored
cefnogaeth
tegwch